Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llanbedr
# Neuadd y Pentref
# Llanbedr
# Gwynedd
# LL45 2PA

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2014**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/04/2014**

## Cyd-destun

Cafodd Cylch Meithrin Llanbedr ei sefydu yn 1978 ac mae'n gwasanaethu pentref arfordirol Llanbedr a'r ardal wledig o gwmpas. Mae Llanbedr rhyw dair milltir i'r de o Harlech.

Mae'r Cylch yn cyfarfod yn neuadd y pentref am bum bore'r wythnos rhwng 9 yb a 11.30 yb yn ystod tymor yr ysgol. Mae'r neuadd yn amlbwrpas, sy`n ei wneud yn ofynnol i`r rhan fwyaf o`r adnoddau gael eu gosod a`u clirio i ffwrdd ar gyfer pob sesiwn.

Mae tua hanner y plant yn dod o gartrefi lle siaredir Saesneg. Nid oes unrhyw blant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig neu unrhyw blentyn wedi`i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol ar hyn o bryd. Nid yw'r ardal yn cael ei ystyried yn un ffyniannus ond nid oes unrhyw blentyn yn dod o gartref difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol.

Mae'r lleoliad yn cael ei redeg gan bwyllgor gwirfoddol ac yn darparu addysg fel aelod o Bartneriaeth Gofal Plant a Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar Gwynedd. Mae hefyd yn aelod cofrestredig o Fudiad Meithrin ac wedi derbyn gwobr Cylch Rhagorol yn 2013.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant rhwng 2½ oed a 4 oed. Mae'r sesiwn Dydd Iau ar gyfer plant rhwng 3-4 oed. Mae`r plant yn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg yn y mis Medi sy`n dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed. Ar adeg yr arolygiad, roedd 11 o blant ar y gofrestr ac o'r rhain roedd 8 yn blant 3 oed ac yn cael eu hariannu.

Mae'r neuadd sy`n cael ei defnyddio gan y lleoliad yn helaeth ac mae gwaith y plant ar y waliau yn darparu cefndir lliwgar a diddorol. Mae`r staff yn gosod allan ystod ddiddorol a phriodol o weithgareddau ar gyfer y plant. Mae`r ardaloedd chwarae lled-barhaol hefyd yn darparu ychwanegiadau defnyddiol. At ei gilydd, mae hyn yn amgylchedd dysgu deniadol ac mae`r holl blant yn cymryd rhan weithredol cyn gynted ag y byddant yn cyrraedd. Mae cegin a thoiledau ar wahân. Pan fydd y tywydd yn ffafriol, mae`r plant yn cael mynediad i ardal chwarae fach yn yr awyr agored ac yn elwa hefyd o ddefnyddio buarth ysgol yr ysgol gynradd gyfagos. Mae cysylltiadau da yn bodoli ac mae'r rhan fwyaf o`r plant yn symud ymlaen i Ysgol Gynradd Llanbedr.

Mae'r arweinydd a'i chynorthwy-ydd yn bresennol ar gyfer pob sesiwn. Mae'r ddwy yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau priodol. Mae'r ddwy wedi mynychu cyrsiau perthnasol gan gynnwys amddiffyn plant, bwyta'n iach a chymorth cyntaf. Mae'r ddwy yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC ) ym mis Ionawr 2014. Nid oedd unrhyw argymhellion pwysig. Roedd yr arolygiad diwethaf gan Estyn yn 2007 ac mae'r argymhellion wedi cael sylw.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

## Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- y cynnydd sy`n cael ei wneud gan y plant a`r safonau maen nhw`n eu cyflawni;
- lles y plant;
- y gofal, cymorth ac arweiniad sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant;
- ymddygiad ac agweddau`r plant;
- y bartneriaeth â rhieni;
- ansawdd yr addysgu.

Mae`r meysydd i`w gwella`n cynnwys:

- darpariaeth ar gyfer gwaith sydd wedi`i wahaniaethu`n briodol er mwyn rhoi gwaith i`r plant sy`n cyfateb â`u gallu.

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon y lleoliad ar gyfer gwella yn dda oherwydd:

- hanes y lleoliad o wella;
- y modd mae`r staff yn cydweithio;
- cefnogaeth weithredol y pwyllgor rheoli;
- cefnogaeth y rhieni a`r gymuned;
- y gefnogaeth gan athrawes gefnogol yr Awdurdod Lleol a Mudiad Meithrin.

## Argymhellion

Mae angen i'r lleoliad:

A1 fireinio`i weithdrefnau asesu ymhellach er mwyn nodi datblygiad medrau pob plentyn a nodi`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant;

A2 cynllunio gwaith sydd wedi`i wahaniaethu`n briodol er mwyn darparu gwaith ar gyfer plant unigol sy`n cyfateb â`u gallu.

A3 gwella`r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh y plant.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

.

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r holl blant yn gwneud cynnydd realistig ac yn cyflawni safonau da. Mae gallu `r plant yn yr iaith Gymraeg yn amrywio ond mae pob un yn gwneud cynnydd da o ystyried eu "man cychwyn ". Mae cymhwysedd ymarferol a llawdriniol y plant yn datblygu'n dda, felly hefyd eu medrau personol a chymdeithasol.

Mae gan yr holl blant fedrau cyfathrebu da gyda`r rhai sy'n dysgu Cymraeg yn deall mwy nag y maen nhw`n siarad. Mae gan y plant fedrau gwrando da mewn perthynas â'u hoedran. Mae`r holl blant yn cymryd rhan ac yn mwynhau canu, yn enwedig caneuon actol a rhigymau. Mae gweithgareddau o'r fath yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i helpu plant i ddatblygu eu gallu yn yr iaith Gymraeg. Mae gan blant hŷn a mwy galluog fedrau creu marciau da, gan gynnwys y gallu i ysgrifennu llythrennau a rhifau sydd yn adnabyddadwy, fel ysgrifennu eu henwau. Mae`r plant hŷn a mwy galluog yn mwynhau gwrando ar storïau ac yn eu dilyn yn eu llyfrau darllen.

Mae gan y plant hŷn a mwy galluog fedrau rhifedd sydd wedi datblygu`n dda, tra bod pob plentyn yn datblygu sgiliau cyfrif priodol fel cyfri`r nifer o blant sy'n bresennol adeg cofrestru. Mae`r plant gorau yn cyfrif yn gywir i 20 ac yn gallu ymgymryd â phroblemau rhifedd syml, gan gynnwys adio a thynnu. Mae llawer o blant yn enwi siapiau dau - ddimensiwn cyffredin ac yn defnyddio iaith fathemategol, gan gynnwys "tal" a "byr", "mawr" a "bach". Mae`r gweithgareddau chwarae yn eu "siop" gyda thiliau arian yn datblygu syniad y plant o arian.

Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn cael profiad o chwarae gyda thegan rhaglenadwy ac maen nhw`n dechrau caffael y sgiliau rhaglennu angenrheidiol. Fodd bynnag, mae eu profiad o dechnoleg ddigidol yn gyfyngedig.

Mae plant yn datblygu eu dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas. Maen nhw`n deall bod angen dŵr ar blanhigion i dyfu ac yn gwybod am yr ystod o anifeiliaid a phlanhigion sydd i'w cael yn y coetir. Mae gan y plant fedrau creadigol da ac yn torri a gludo gwahanol siapiau a lliwiau fel rhan o'u cynlluniau. Mae sgiliau meddwl y plant yn datblygu ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y safonau maen nhw`n cyflawni.

Mae pob plentyn yn dangos sgiliau personol a chymdeithasol da mewn perthynas â'u hoedran. Maen nhw`n chwarae'n hapus gyda'i gilydd, yn rhannu offer ac yn dangos goddefgarwch.

Mae'r holl blant yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu`r iaith Gymraeg ac mae`r cynnydd yn ddigonol i'w galluogi i fynychu'r ysgol cyfrwng Cymraeg lleol. Mae`r plant yn gyfarwydd â thraddodiadau Cymru a gweithgareddau diwylliannol sy'n gysylltiedig â Dewi Sant a Santes Dwynwen.

**Lles: Da**

Mae`r plant yn llawn cymhelliant ac yn mwynhau mynychu'r lleoliad. Mae eu brwdfrydedd yn amlwg wrth iddynt ddod i mewn gan gymryd rhan yn fuan yn yr ystod dda o weithgareddau sy`n cael eu gosod ar eu cyfer. Mae`r rhan fwyaf o blant yn dangos lefelau uchel o hunan-barch a pharch at ei gilydd. Mae`r plant yn rhannu offer ac maen nhw`n ddigon hyderus i ddewis eu hoff weithgareddau.

Mae'r holl blant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad ac mae nifer yn barod i gyfathrebu â'r arolygydd drwy siarad am yr hyn maen nhw`n ei wneud.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu`r plant ag ystod eang o brofiadau diddorol ac ysgogol ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae ymwelwyr ac ymweliadau â'r amgylchedd lleol cyfoethog yn gwella dysgu`r plant ac yn ehangu eu profiadau yn briodol.

Mae'r holl blant yn cael eu trochi yn yr iaith Gymraeg drwy sesiynau sgwrsio, holi ac ateb a thrwy ganu rhigymau a chaneuon. Mae datblygu medrau rhifedd plant yn rhan annatod o'r cwricwlwm ac mae cyfleoedd da yn cael eu cynllunio fel bod plant yn defnyddio eu sgiliau rhif. Mae`r cyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau TGCh yn fwy cyfyngedig. Mae cyfleoedd da yn cael eu cynllunio i`r plant ddatblygu eu medrau creadigol a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas.

At ei gilydd, fodd bynnag, nid yw`r cynllunio`n canolbwyntio'n ddigonol ar ddarparu gweithgareddau sy'n herio plant yn ddigonol a`u helpu i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae cyfleoedd da yn cael eu darparu i`r plant ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Maen nhw`n gwybod am wyliau Cymru, fel Dydd Gŵyl Dewi Sant a Santes Dwynwen, yn ogystal â diwylliannau eraill.

**Addysgu: Da**

Mae`r ymarferwyr yn brofiadol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae`r profiadau dysgu yn ysgogi`r plant ac mae'r staff yn defnyddio ystod addas o strategaethau addysgu i ennyn diddordeb y plant. Ar y cyfan, mae`r adnoddau yn cael eu defnyddio'n dda ac mae`r ymarferwyr yn cefnogi`r plant yn dda. Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu harwain gan oedolion a`u dewis gan y plant. Mae'r staff yn fodelau iaith da ac mae hyn yn sicrhau bod plant yn cael eu trochi yn yr iaith Gymraeg.

Mae`r plant yn cael eu hasesu'n rheolaidd ac yn gynhwysfawr ac mae`r arsylwadau yn cael eu cofnodi. Mae gan staff wybodaeth fanwl o gynnydd y plant. Yn yr enghreifftiau gorau o gynnydd y plant, mae`r asesiadau yn cyfeirio at y medrau sy`n cael eu caffael gan y plant. Mae hyn yn amlwg mewn rhifedd yn benodol. Nid yw canlyniadau'r asesu yn cael eu defnyddio'n ddigonol bob amser wrth gynllunio

gweithgareddau i`r dyfodol. Nid yw'r camau nesaf yn nysgu `r plant bob amser yn cael eu cynllunio`n glir, fel bod plant yn cael eu herio'n ddigonol i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg . Mae gweithdrefnau asesu newydd yn ei lle ers mis rhagfyr.

Mae'r rhieni yn ymwybodol o gynnydd eu plant ac maen nhw`n fodlon gyda'r wybodaeth maen nhw`n ei derbyn .

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant, yn ogystal â'u datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Mae'r lleoliad hefyd yn annog cynaliadwyedd, fel y cynllun ailgylchu papur a defnyddio deunydd jync i wneud modelau .

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle ac mae'r lleoliad yn amgylchedd tawel, cefnogol ar gyfer y plant. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at eu hiechyd a'u lles emosiynol. Mae`r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad corfforol y plant yn amlwg yn yr ardal chwarae tu allan lle mae cyfle i chwarae bywiog fel defnyddio`u beiciau tair olwyn a chwarae pêl.

Mae'r lleoliad yn darparu`r plant ag amgylchedd diogel. Mae`r drws i'r neuadd wedi ei gloi yn barhaol fel na all neb ddod i mewn neu adael heb rybudd. Mae'r ardal chwarae tu allan wedi`i ffensio ac mae'r plant yn cael eu goruchwylio gan oedolion. Mae`r ymweliadau yn cael eu cynllunio'n dda ac mae`r rhieni sy'n mynychu yn sicrhau cymhareb dda o oedolion i blant. Mae asesiad risg yn cael ei wneud bob amser.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Nodwedd nodedig o'r gweithgareddau sy`n cael eu trefnu gan y lleoliad yw`r ymweliadau â'r amgylchedd lleol. Yn ystod yr ymweliadau hyn mae`r plant yn dod i werthfawrogi rhyfeddodau natur a datblygu eu chwilfrydedd .

Mae'r lleoliad yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, parch a thegwch ac yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu plant i wahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir ac anghywir.

Mae`r plant yn deall y rheolau syml o ymddygiad sydd wedi`i sefydlu yn y lleoliad. Mae`r plant yn ymwneud yn dda â'i gilydd ac yn dod yn fwyfwy cyfrifol, fel wrth helpu i "glirio i ffwrdd" a "thacluso".

Mae pwyslais priodol yn cael ei roi ar ddysgu am ddiwylliant Cymru a phobloedd eraill.

Ar hyn o bryd, nid oes un o`r plant sy`n bresennol wedi eu hadnabod ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mae plant ag anghenion o'r fath wedi bod yn bresennol yn y gorffennol ac mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith os a phryd mae`r angen yn codi.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle mae`r holl blant yn cael eu parchu fel unigolion ac yn cael hawl gyfartal i bob agwedd o ddarpariaeth y lleoliad. Mae`r plant yn cael eu gwerthfawrogi a'u barn yn cael eu hystyried wrth gynllunio'r cwricwlwm. Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol gydag oedolion sydd â chymwysterau da, sy'n addysgu pob agwedd o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd dysgu deniadol. Mae digon o adnoddau sy`n cyfateb yn dda i anghenion y plant. Mae gwaith y plant yn cael ei arddangos yn briodol ac mae'n gwella awyrgylch cyffredinol y lleoliad. Mae'r lleoliad yn llwyddo i hyrwyddo agweddau goddefgar y plant ac yn llwyddo i ddileu unrhyw ffurf o ymddygiad gormesol neu wrthgymdeithasol.

Mae cyflenwad digonol o adnoddau o ansawdd uchel sy’n cyfateb yn dda i ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac i ddatblygiad y plant. Mae’r plant y elwa o ardal chwarae a gardd sy’n gyfagos i’r brif ystafell ddysgu. Y tu allan, mae amrywiaeth o offer sefydlog ar gyfer y plant.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn dangos synnwyr cryf o ddiben sy'n hyrwyddo ac yn cynnal gwelliant. Mae`r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn, yn cynllunio ar y cyd ac yn rhannu nodau ac amcanion ar gyfer y lleoliad. Mae'r gwaith yn canolbwyntio'n glir ar ddarparu'r ddarpariaeth orau posibl ar gyfer y plant a datblygu eu potensial personol, cymdeithasol ac academaidd. Mae`r staff yn cael eu cefnogi'n dda gan y rhieni sy'n parchu`r cyfraniad sy`n cael ei wneud gan y lleoliad i ddatblygu eu plant.

Mae`r berthynas yn dda iawn. Mae hyn yn cynnwys perthynas gyda'r gymuned, rhieni a'r pwyllgor rheoli.

At ei gilydd, mae'r canlyniadau ar gyfer y plant yn dda ac mae'r staff bob amser yn chwilio am ffyrdd i wella'r ddarpariaeth. Mae`r polisïau a`r mentrau gan gynnwys blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn cael eu gweithredu'n gyson.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae`r ymarferwyr wedi gweithio yn y lleoliad am y 14 mlynedd diwethaf ac mae ganddynt wybodaeth dda am y lleoliad a sut mae wedi esblygu. Dros y blynyddoedd mae camau cadarnhaol wedi'u cymryd i wella'r ddarpariaeth ac o ganlyniad cynnydd a chyflawniad y plant.

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn amlwg ymhob agwedd o waith y lleoliad sy`n canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant. Mae`r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn rhannu syniadau. Mae barn y plant a rhai eu rhieni

a'u gofalwyr yn cael eu hystyried ac mae hyn yn sicrhau bod pawb wedi ymrwymo yn llawn. Mae craffu ar waith y plant, eu safonau cyflawniad a`u lles wedi gwella'n gyson dros y blynyddoedd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ystod eang o weithgareddau partneriaeth yn gwneud cyfraniad effeithiol a sylweddol i gyflawniad da`r plant ac yn enwedig eu lles.

Mae'r lleoliad yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr yn holl weithgareddau'r lleoliad. Mae`r rhieni yn cael eu croesawu i'r lleoliad ar unrhyw adeg gan gynnwys ymweliadau cyn i'w plentyn ddechrau mynychu. Ceir gweithgareddau codi arian rheolaidd pan mae`r lleoliad yn adrodd ar gefnogaeth dda`r rhieni a phobl o'r gymuned leol. Mae'r lleoliad wedi elwa'n sylweddol o ddigwyddiadau o'r fath. Mae cyngherddau Nadolig a boreau agored ddiwedd tymor yn cael eu mynychu gan rieni a gofalwyr. Mae rhieni hefyd yn cefnogi'r lleoliad ar ymweliadau, fel yr un cafodd ei weld yn ystod yr arolygiad pan aeth y plant i ymweld â`r swyddfa bost leol. Mae rhieni hefyd yn gwerthfawrogi`r adroddiadau maen nhw`n eu derbyn ar gynnydd y plant.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau da ac effeithiol gyda'r ysgol gynradd sy'n derbyn y plant. Mae`r plant yn ymweld yn rheolaidd ac yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer y disgyblion ifanc yn yr ysgol. Mae buarth yr ysgol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau corfforol fel chwarae gyda theganau 3 olwyn.

Mae gwaith y pwyllgor rheoli yn werthfawr iawn ac yn cyfrannu'n dda iawn i lwyddiant y lleoliad. Mae gan y pwyllgor wybodaeth dda iawn o waith y lleoliad ac yn gefnogol iawn o'i waith.

Mae athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r gefnogaeth gan Fudiad Meithrin yn werthfawr iawn o ran cyngor ac awgrymiadau. Mae sefydliadau lleol yn cymryd rhan pan fydd angen ac mae`r lleoliad yn medru cysylltu â nhw yn ôl yr angen.

At ei gilydd, mae gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol ac yn gwneud cyfraniad da i ddatblygiad y plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae`r adnoddau yn cael eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi`r dysgu. Dros y blynyddoedd diwethaf mae`r staff wedi blaenoriaethu eu gwariant yn unol â gofynion canfyddedig er mwyn gwella'r ddarpariaeth.

O ganlyniad, mae'r lleoliad wedi esblygu i fod yn gymuned ddysgu effeithiol lle mae`r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae`r penderfyniadau ariannol yn cael eu monitro gan y pwyllgor rheoli.

Mae`r holl benderfyniadau`n canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant ac mae gwaith y gymuned leol yn cael ei gydnabod fel cyfraniad gwerthfawr.

At ei gilydd, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 10 | 6<br>60% | 4<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'nfodlonâ'rlleoliadyngyffredinol. |
| | | 80% | 19% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 10 | 8<br>80% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fymhlentynynhoffi'rlleoliadhwn. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 10 | 8<br>80% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafoddfymhlentyngymorthi ymgartrefu'ndda pan ddechreuoddyn y lleoliad. |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 10 | 9<br>90% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fymhlentynyngwneudcynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 10 | 4<br>40% | 5<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae plant ynymddwynynddayn y lleoliad. |
| | | 70% | 26% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 10 | 9<br>90% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'raddysguyndda. |
| | | 79% | 17% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 10 | 9<br>90% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yntrinpobplentynyndeg a gydapharch. |
| | | 82% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 10 | 6<br>60% | 3<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Caifffymhlentyneiannogifod yniach ac iwneudymarfercorffynrheolaidd. |
| | | 73% | 22% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 9 | 8<br>89% | 1<br>11% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fymhlentynynddiogelyn y lleoliad. |
| | | 85% | 14% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 10 | 7<br>70% | 2<br>20% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0 | Mae fymhlentynyncaelcymorthychwanegolpriodolmewnperthynasagunrhywanghenionunigolpenodol. |
| | | 65% | 24% | 1% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'ngryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'ngryf | Don't know<br>Ddimyngwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child’s progress. | 10 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'ncaelgwybodaethgyson am gynnyddfymhlentyn. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 30% | 5% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 10 | 7 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'nteimlo’ngysurusynglŷn â gofyncwestiwni'rlleoliad, gwneudawgrymiadauneunodi problem. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 10 | 7 | 2 | 0 | 0 | 1 | Rwy'ndealltrefn y lleoliadargyferdelio â chwynion. |
| | | 70% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 29% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 10 | 9 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fymhlentynwedi'ibaratoi'nddaargyfersymudymlaeni'rysgol. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 71% | 23% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 7 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaethdda o weithgareddau, gangynnwysteithiauneuymweliadau. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 30% | 4% | 0% | | |
| The setting is well run. | 10 | 9 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae'rlleoliadyncaeleiredegyndda. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 82% | 16% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |